



SIARTER URDDAS

“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi.”

Effesiaid 4. 32

Mae gan bawb yr hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch ac mae hyn yn golygu bod gan bawb ddyletswydd a chyfrifoldeb hefyd i drin eraill gyda'r un urddas a pharch. Mae trin pobl mewn modd sy'n anghwrtais ac yn ddigywilydd mewn unrhyw ffordd neu sy'n achosi niwed yn tanseilio urddas yr unigolyn yn ogystal â bywyd a gweinidogaeth yr eglwys gyfan. Bydd perthynas wael yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu tanbriso a theimlo'n anhapus. Gallant achosi gofid, effeithio ar les corfforol a meddyliol, a chael effeithiau andwyol ar gydberthnasau cymdeithasol.

Mae'r hawl i gael eich trin gydag urddas a pharch yn cwmpasu pob agwedd ar ein bywyd eglwysig gan gynnwys y tu allan i'r gweithle nodweddiadol, er enghraifft, wrth weithio gyda'r gymuned, yng ngwasanaethau'r eglwys, mewn cyfarfodydd busnes a digwyddiadau cymdeithasol yn ymwneud â gwaith neu wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Siarter Urddas hon yn berthnasol i grwpiau ac i unigolion hefyd. Mae'n darparu fframwaith o ddisgwyliadau ar gyfer rheoli sut rydym yn ymddwyn tuag at ein gilydd. Mae'n nodi safonau y dylai pawb eu cyrraedd. Y bwriad yw creu amgylchedd cefnogol lle mae camgymeriadau'n cael eu nodi a'u cydnabod gan arwain at ddysgu cadarnhaol a newid cynyddol mewn ymddygiad. Mae'r Siarter yn nodi sut mae dangos parch a gwerthfawrogiad at unigolion yn egwyddorion sylfaenol sy'n cynyddu amrywiaeth mewn modd cadarnhaol a ffyniant ein bywyd yn gyffredinol.

